OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 69 (Cy.7)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*18 Ionawr 2005*
Yn dod i rym - -	*21 Ionawr 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 4(1), (2) a (3) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 21 Ionawr 2005.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

2. Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**3**) fel a ganlyn.

3. Yn Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 13 rhodder y canlynol —

"**13.** Os yw'n hysbys,

(a) y dyddiad pan ddechreuodd yr athro neu'r athrawes yn ei swydd gyntaf yn athro neu athrawes gymwysedig;

(b) y dyddiad pryd y cyflogwyd yr athro neu'r athrawes am y tro cyntaf (os o gwbl) fel athro cyflenwi neu athrawes gyflenwi o dan baragraff 4 o Atodlen

(**1**) 1998 p.30. Mae adrannau 2 i 7 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 9. Diwygir adran 4 yn rhagolygol gan baragraff 4(2) o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32), a diwygiwyd hi gan baragraff 77 o Atodlen 21 i'r Ddeddf honno. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002.

(**3**) O.S. 2000/1979 (Cy.140), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2496 (Cy.200) ac O.S. 2004/1741 (Cy. 180).